# CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

**Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 4ydd o Ragfyr 2024 am 7.30yh yn Neuadd Aberangell.**

Presennol; Cyng.John P Jones, Sion Alun Roberts, Wyn Lewis, Arfon Hughes, John P Roberts, Lynne Mccrickett, Rhys Davies, Berwyn Harding a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Cyng John P Jones. Roedd ymddiheuriadau gan y Cyng Catrin Johnson a Idris Jones.
   Gwahoddwyd ddatganiadau o ddidordeb am faterion ar yr agenda. Nid oedd unrhyw ddatganiadau.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a** gynhaliwyd ar y 9fed Hydref ar gynnig Cyng John P Roberts a'i eilio gan Cyng Wynn Lewis.

4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd a Cefnffyrdd** – adroddwyd yn llawn am yr ymatebion i faterion ers y tro diwethaf. Gyda'r trafferthion parcio o flaen Capel Ebeneser/Bugeilfod – awgrymwyd rhoi arwydd yno, a byddai'r Clerc yn cysylltu gyda Ysgrifennydd y Capel. Roedd y gwaith ym maes parcio Neuadd Aberangell yn parhau heb ei wneud, ac addawodd Cyng John P Roberts gysylltu yn uniongyrchol gyda Adrian Williams, Adran Briffyrdd.

b) **Gwerthiant Eglwys Llanymawddwy –** adroddwyd fod cyfarfod ar y 9fed o Ragfyr i drigolion ardal Llanymawddwy a chyn aelodau.

c) **Cwyn am 2 garafan static** – Min y Goedwig, Aberangell, - nodwyd siom am y sefyllfa, gan and oedd dim wedi newid. Roedd angen atgoffa y Parc Cenedlaethol.

d) **Pwyllgor yr Hen Fynwent –** nid oedd diweddariad.

e) **Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas –** Cadarnhaodd Cyng Wyn Lewis ei fod yn parhau i wneud gwaith ar hyn, a bod cyfarfod ar y 7fed o Ionawr ar y safle.

f) **Blwch Post ger yr Hen Siop** – adroddwyd y gŵyn fod yn anodd mynd at y Blwch oherwydd bwrdd/cadeiriau yno. Cadarnhawyd mai Cwmni Nod Glas oedd perchen yr adeilad. Addawodd Cyng Arfon Hughes gael gair gyda'r rhai sy'n rhedeg y Caffi.

Gwelwyd fod rhaid gofyn eto am Flwch Post yn Cerist.

g) **Ymweliad Grwp Cynefin gyda'r Neuadd ar ddydd Mercher 27ain Tachwedd** – nodwyd fod hyn wedi bod yn llwyddiant.

h) **Ymweliad swyddogion Parc Ynni Esgair Ddu 15fed Tachwedd yn Neuadd Dinas** – nodwyd fod cais am hyn yn Aberangell hefyd, a bod addewid wedi ei roi y byddai hyn yn cael blaenoriaeth yn rhan nesaf yr ymgynghoriad.

i) **Nodwyd gwasanaeth Sul y Cofio ar y 10fed o Dachwedd**. Roedd angen gwaith ar y llwybr sy'n arwain at y giat, a byddai'r Clerc yn gofyn i Gyngor Gwynedd yn y lle cyntaf.

## 5 . Materion Cynllunio

Adroddwyd am un cais a ddosbarthwyd ers y cyfarfod diwethaf, sef;

**NP5/74/518 – Gwynfryn, Dinas Mawddwy** – gosod pwmp gwres ffynhonell aer ynghefn yr eiddo

Roedd hwn wedi ei ddanfon eisoes i'r Cynghrowyr, ac roedd cefnogaeth i'r cais.

Yn dilyn yr ohebiaeth gyda'r Parc Cenedlaethol, pwysleisiwyd fod angen rhoi sylwadau yn dweud 'cefnogol' gyda rhesymau, hefyd gwrthwynebiad gyda rhesymau.

## 6. Materion Cyllid.

a) **Nodwyd balansau y cyfrifon**, (4.12.24), sef Cyfri Cyfredol £10,126.33, Cyfri Claddedigaeth £896.29 a Cyfri Cadw £788.50.

**b) Anfonebau I'w talu;**

Ar gynnig Cyng John P Roberts a'i eilio gan Cyng Berwyn Harding, cytunwyd i dalu y canlynol;

Yn dilyn rhodd o **Goeden Nadolig i'r Neuadd** gan Geraint Gwanas, talu £50 i Sioe Dinas yn ol yr arfer (sef ei ddymuniad). Hefyd diolchwyd i bawb am eu cymorth yn gosod y goeden eleni eto.

**Torch Sul y Cofio** – talu £20 fel ad-daliad i'r Clerc.

c) Ceisiadau am arian **-** nodwyd y canlynol i law;

- Ambiwlans Awyr Cymru
- Yr Urdd – Cronfa Cyfle i bawb 2024-25

Ar gynnig Cyng John P Roberts a'i eilio gan Cyng Arfon Hughes, penderfynwyd peidio cyfrannu i'r ddau achos yma am y tro, ac ystyried eto cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Yn dilyn llythyr i law, ar gynnig Cyng John P Roberts a'i eilio gan Cyng Berwyn Harding, a chytundeb pawb, **cytunwyd i dalu £400 i Eisteddfod y Groglith, Dinas Mawddwy.** (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Arfon Hughes)

d) Cadarnhawyd nad oedd unrhyw Gynghorydd oedd yn bresennol yn awyddus i hawlio treuliau/costau am 2024-25, ac arwyddwyd datganiadau.

e) Ystyriwyd yn fanwl y gyllideb ddrafft oedd wedi ei pharatoi gan y Clerc ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf 2025-26, a gwnaed rhai ychwanegiadau. **Penderfynwyd yn unfrydol codi y praesept £400, sef i gyfanswm o £13,100 ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf 2025-26.**

## 7. Gohebiaeth.

a) Nodwyd dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru a oedd wedi eu danfon allan ymlaenllaw i'r Cynghorwyr

**b) Cynhadledd Un Llais Cymru a'r SLCC ar yr 20fed o Dachwedd. -** derbyniwyd adroddiad am ychydig o'r cynnwys gan y Clerc.

Un mater oedd gofal/archwiliad o asedau y Cyngor, a gofynwyd i'r canlynol edrych ar y mynwentydd erbyn cyfarfod nesaf;

Mynwent Llanymawddwy – Cyng John P Roberts a Sion Alun Roberts

Mynwent Mallwyd – Cyng Arfon Hughes a Geraint Morgans

Mynwent Dinas – Cyng Wyn Lewis a John P Jones

(nodwyd hefyd nad oedd gwair mynwent Llanymawddwy wedi ei gasglu gan Tegid eleni fel yr addawyd, a bod angen cofio am hyn flwyddyn nesaf)

Un mater arall a nodwyd oedd yr awgrym y dylid cael e-bost arwahan i'r Cyngor, er dim yn orfodol. Awgrymodd y Clerc yr e-bost Cyngormawddwy@outlook.com; a chytunwyd ar hyn.

**c) Darllenwyd g**ohebiaeth Cyngor Cymuned Llanystumdwy ynglyn ag Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Gofwynnwyd I'r Clerc ei ddanfon I'r Cynghorwyr a gofyn am sylwadau o fewn y pythefnos nesaf.

d) Nodwyd lythyr gan bwyllgor **Achub Plas Tanybwlch** yn gofyn am gefnogaeth – ar gynnig Cyng Arfon Hughes a'I eilio gan Cyng Wyn Lewis, penderfynwyd danfon I ddweud ein bod yn gefnogol I'r bwriad mewn egwyddor.

e) **Ymgynghoriad Cyngor Gwynedd ar drefniadau etholiadol** – byddai'r Clerc yn ei ddosbarthu I'r Cynghorwyr

f) **Nodwyd llythyr Liz Saville Roberts AS i holl Gynghorau Cymuned Dwyfor Meirionnydd** oedd yn egluro cyfrifoldebau aelodau etholedig San Steffan a Chaerdydd, gofyn cymorth i gefnogi pobl leol gyda newidiadau mewn cysylltedd, a cyflwyno crynodeb o waith Aelodau Senedd. Roedd angen rhoi hyn ar yr agenda y cyfarfod nesaf. Y prif faterion oedd;

- Symud o linellau ffon analog i ffon digidol erbyn 31.01.27
- 'smart meters' sydd yn ddibynnol ar signal symudol i weithio
    - Tlodi ynni a chredyd pensiwn – gyda cholli y taliad tanwydd, roedd yn bwysig fod pobl yn gwybod sut i wneud cais.

**8. Unrhyw Fater arall.**

a) Adroddwyd fod angen clirio mwsog/glanhau y llwybr ym mynwent Llanymawddwy, Addawodd Cyng Sion Alun Roberts wneud hyn, a diolchwyd yn fawr iawn iddo.

b) Roedd rhai ochrau ffyrdd heb gael eu tocio cymaint a'r gweddill, a chyfeiriwyd at yr A470 rhwng Llwyngrug a Mynogau, a ger Buarth Glas. Nodwyd yn arbennig yr ynysoedd ger yr arhosfannau lle roedd tyfiant/ rhai coed bach yn tyfu, ac roedd angen rheoli hyn.

c) Roedd coed mawr ar ochrau y ffordd i gyfeiriad Cefn, Aberangell, ac angen dwyn sylw Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY NOS FERCHER 22ain Ionawr 2025 am 7.30 y.h.**